

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL  
(MEMORANDWM RHIF 2)**

**BIL DIOGELU DATA A GWYBODAETH DDIGIDOL (RHIF 2)**

1. Cafodd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn ei osod o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddioben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n diwygio'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023. Cewch ei weld ar wefan Senedd y DU: [Data Protection and Digital Information No.2 Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament](#).

**Amcan y Polisi**

3. Amcan datganedig polisi Llywodraeth y DU yw diweddarau a symleiddio fframwaith diogelu data'r DU gyda'r bwriad o leihau beichiau ar sefydliadau tra'n cynnal safonau diogelu data uchel.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gwreiddiol a osodwyd ar 24 Mawrth. Mae hwnnw'n dal i fod yn gywir.

*Yr ymwneud â Llywodraeth y DU ers yr LCM gwreiddiol.*

5. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ynghylch darpariaethau penodol o fewn y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 13-15 a 22-24 isod.
6. Ar 17 Mai cyfarfu Gweinidog yr Economi â Syr John Whittingdale, y Gweinidog Gwladol, yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i drafod y Bil a phryderon Llywodraeth Cymru.

**Y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol**

7. Gosodais LCM ar 24 Mawrth, yn seiliedig ar y Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 8 Mawrth.

8. Yn yr LCM hwnnw, argymhellais roi cydsyniad i:
- Gymal 54, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol; a,
  - Cymal 92, Rhan 4, Datgelu gwybodaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus ymgymeriadau.
9. Fodd bynnag, mae'r LCM yn nodi fy marn hefyd na fyddai'n briodol argymhell rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol nes bod rhagor o drafod wedi bod gyda Llywodraeth y DU am oblygiadau datganoledig y darpariaethau hyn:
- Cymal 56, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol;
  - Cymalau 61 i 77, Rhan 3, Data Cwsmeriaid a Data Busnesau; a
  - Cymal 93, Rhan 4, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith.
10. Ar 10 ac 11 Mai, cyflwynodd Llywodraeth y DU y gwelliannau canlynol. Aseswyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru arnynt.
- Gwelliant NC3, Gwybodaeth a ddatgelwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru;
  - Gwelliant 46, newid i gymal 61 data cwsmeriaid a data busnesau; a
  - Gwelliannau 8-16 ac NC5, ynghylch cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith), cymal 108 (rheoliadau), ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol".
11. Bydd y gwelliannau yn cael eu hystyried yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Dechreuodd hwnnw ar 10 Mai a daw i ben ar 13 Mehefin.
12. Yn dilyn dadansoddiad cyfreithiol o oblygiadau'r cymalau newydd hyn, fel y'u gwelir ym mharagraff 10 uchod, credaf fod angen gosod yr LCM atodol hwn gerbron Senedd Cymru, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 13 i 25 isod.

### **Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

#### *Gwelliant NC3 - Gwybodaeth a ddatgelwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru;*

13. Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU am Gymal 55, fel y'i cyflwynwyd, sy'n nodi na ddylid rhannu gwybodaeth a ddatgelir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC) ar gyfer darparu Gwasanaethau Dilysu Data heb ganiatâd Comisiynwyr Cyllid a Thollau EF.
14. Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru am ddarpariaethau tebyg ar gyfer data a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), gan gydnabod y gofynion cyfreithiol a roddir ar ACC ynghylch cadw cyfrinachedd 'gwybodaeth warchoddedig am drethdalwyr'

(fel y'i nodir yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016). Gofynnodd Llywodraeth yr Alban am ddarpariaethau tebyg hefyd.

15. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant NC3, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru.
16. Mae Gwelliant NC3 yn nodi, pan fydd Awdurdod Cyllid Cymru yn datgelu gwybodaeth o dan gymal 54, bod y cymal newydd hwn yn atal datgelu'r wybodaeth honno ymhellach heb gydsyniad Awdurdod Cyllid Cymru.
17. Felly, mae'r rhain yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

*Gwelliant 46 – newid cymal 61 data cwsmeriaid a data busnesau:*

18. Mae Rhan 3, cymalau 61-77, fel y'u cyflwynwyd, yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth cwsmeriaid a busnesau er mwyn hwyluso cludiant data (Data Clyfar). Mae'r cymalau hyn yn caniatáu rhannu data yn ddiogel, ar gais y cwsmer, â darparwyr trydydd parti awdurdodedig (ATPs), a fyddai wedyn yn defnyddio'r data i ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer, gan gynnwys cyfnewid cyfrif yn awtomatig, cymharu marchnadoedd a gwasanaethau rheoli cyfrif. Gall y cwsmer fod yn ddefnyddiwr neu'n fusnes.
19. Gan eu bod yn rhoi dyletswydd ar ddeiliaid data i rannu data cwsmeriaid a busnesau ac yn dileu cyfyngiadau sy'n rhwystro mynediad cwsmeriaid at rai gwasanaethau, mae'r pwrpas yn ymwneud â busnes a'r economi.
20. Cafodd y darpariaethau yng nghymalau 61-77 eu cynnwys felly yn yr LCM a osodwyd ar gyfer y Bil ar 24 Mawrth.
21. Gan fod y gwelliant hwn yn perthyn i Ran 3 y Bil, mae angen cydsyniad deddfwriaethol, fel yr amlinellir uchod.

*Gwelliannau 8-16 a NC5, sy'n ymwneud â chymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith), cymal 108 (rheoliadau), ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol"*

22. Cynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU am Gymal 93, fel y'i cyflwynwyd, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, fel y gwêl yn briodol, at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith (I-LEAP).
23. Yn y trafodaethau hyn, gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod pwerau cydredol a mwy yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar waith sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddiben agweddau ar orfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru.

24. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi gosod gwelliannau 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16 ynghyd â NC5, Ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol":
- O dan welliant NC5, caiff cymal newydd ei gyflwyno sy'n darparu ar gyfer arfer y pŵer deddfu a roddir gan gymal 93 i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru;
  - Mae gwelliannau 8, 10 a NC5 yn galluogi'r pŵer i wneud rheoliadau a roddir gan gymal 93 gael ei arfer yr un pryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, mewn perthynas â materion datganoledig, gan Weinidogion yr Alban a Gweinidogion Cymru;
  - Mae gwelliant 9 yn ganlyniad i welliant 8; ac
  - Mae gwelliannau 11, 12, 13, 14, 15, 16, sy'n diwygio cymal 108 fel y'i cyflwynwyd, yn ganlyniad i Welliannau 8 a 10 a NC5.
  - Mae gwelliant 15 yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr y weithdrefn penderfyniad negyddol mewn cysylltiad â rheoliadau a wneir gan Weinidogion yr Alban neu Weinidogion Cymru. Byddai pwerau Gweinidogion Cymru o ran llunio rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
25. Gan y gallai'r rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn wneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol i'r graddau eu bod yn ymwneud â rhoi cytundebau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig ar waith, maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

### **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

26. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Gwelliant 46 - newid i gymal 61 data cwsmeriaid a data busnesau (ynghylch cymalau 61-77, Rhan 3, Data Cwsmeriaid a Busnesau), a Gwelliannau 8-16 a NC5, sy'n ymwneud â chymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith), cymal 108 (rheoliadau), ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol".
27. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer Gwelliant NC3, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru. Yn hytrach, mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd Gwasanaethau Dilysu Data bob amser yn golygu defnyddio'r rhyngwyd mewn rhyw ffordd ac felly'n dadlau, fel gyda chymal 54, bod gwasanaethau rhyngwyd yn fater a gedwir yn ôl.

### **Barn Llywodraeth Cymru am y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)**

28. Rwy'n fodlon bod mwyafrif y gwelliannau a gyflwynwyd ar 10 Mai yn gwella'r sefyllfa a ddisgrifir yn yr LCM gwreiddiol a osodwyd ar gyfer y Bil hwn ar 24 Mawrth.

29. Mae gwelliant NC3 yn adlewyrchu'n well y gofynion cyfreithiol sydd ar Awdurdod Cyllid Cymru i gadw cyfrinachedd 'gwybodaeth warchoddedig am drethdalwyr' (fel y'u nodir yn Neddff Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016).
30. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y rheoliadau sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys o dan Ran 3, cymalau 61-77 y mae gwelliant 46 a nodir yn y LCM gwreiddiol a osodwyd ar 24 Mawrth, yn ymwneud â nhw.
31. Mae pryderon yn parhau hefyd ynghylch Cymal 93 - Rhan 4, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith. Mae gwelliannau 8-16 ynghyd â NC5 yn ymwneud â'r cymal hwn. Er bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn mewn ymateb i'n cais am bwerau gwneud rheoliadau priodol i Weinidogion Cymru, mae'r gwelliannau fel y maent wedi'u drafftio yn rhoi pŵer cydredol i Weinidogion Cymru yn unig, heb drefniant cydsynio pe bai Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer.
32. Rydym yn parhau i wrthwynebu'r defnydd o bwerau cydredol o'r fath, yn unol â'n hegwyddorion. Rydym yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU ar y gwelliannau hyn a'm barn i yw na fyddai'n briodol argymhell rhoi cydsyniad i'r cymal hwn heb ragor o welliannau.

### **Goblygiadau ariannol**

33. Efallai y bydd gan Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) Llywodraeth y DU oblygiadau ariannol i Gymru os bydd Gweinidogion Cymru yn dewis defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir o dan gymal 93 (rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith) a gwelliant NC5 'Ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol"'. Byddai angen rhagor o waith bryd hynny i ddeall yr effaith, pe penderfynid defnyddio unrhyw bwerau a roddir.
34. Efallai y bydd goblygiadau ariannol hefyd mewn perthynas â chymal 72 sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys roi cymorth ariannol i 'bersonau' penodedig. Mae gwaith ar y gweill i ddeall sut y gallai hyn effeithio ar Gymru, a rhennir rhagor o wybodaeth pan fedrir.

### **Casgliad**

35. Yn fy marn i, efallai y bydd yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn, gan mai'r Bil hwn fydd y ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.
36. Fy marn i yw ei bod yn briodol argymhell rhoi cydsyniad ynghylch Gwelliant NC3, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

37. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw'n briodol argymhell rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol nes ein bod wedi cael trafod mwy â Llywodraeth y DU am y materion a amlinellir ym mharagraffau 29-31 uchod:

- Gwelliant 46 – newid i gymal 61 data cwsmeriaid a data busnesau (ynghylch cymalau 61-77, Rhan 3, Data Cwsmeriaid a Busnesau), a,
- Gwelliannau 8-16 a NC5, ynghylch cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith), cymal 108 (rheoliadau), ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol".

**Mark Drakeford AS**  
**Prif Weinidog**  
**25 Mai 2023**